Adolygiad Cymunedol 2013

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol
a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd

# Cam 2: CYNIGION DRAFFT

**Cyflwyniad**

Ar 1 Mawrth 2013 sefydlodd Cyngor Caerdydd adolygiad cymunedau i ystyried pa newidiadau y mae angen eu gwneud, os o gwbl, i drefniadau cymunedau presennol ledled Dinas a Sir Caerdydd.

Cam cyntaf yr adolygiad, a gwblhawyd ar 31 Mai 2013, oedd gofyn i bob preswylydd a phob corff oedd â diddordeb (gweler Atodiad A) ystyried y trefniadau presennol a chyflwyno'u sylwadau o'u plaid neu gynigion i'w newid. Bellach mae'r sylwadau hyn wedi'u hadolygu a lluniwyd cynigion drafft a'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghori pellach â'r cyhoedd. Bydd cyfnod yr ymgynghori cyhoeddus yn rhedeg o 1 Awst 2013 hyd 31 Hydref 2013 pryd y caiff y sylwadau a dderbynnir eu hadolygu eto cyn llunio, cyhoeddi a mabwysiadu cynigion terfynol.

**Adolygu'r sylwadau rhagarweiniol**
O ran y Cylch Gorchwyl, gwnaeth Cyngor Caerdydd ddadansoddiad diduedd o'r holl sylwadau a ddaeth i law wedi'r Cam 1af ac mae wedi gwneud 21 o newidiadau arfaethedig i'r cymunedau presennol.

I bwrpas y dadansoddiad, ystyriwyd bod i gymuned ryw ymdeimlad o hunaniaeth sy'n aml yn cyd-fynd ag ymdeimlad o arwahanrwydd oddi wrth bobl sy'n byw y tu allan i'r ardal. Gall y nodwedd hon ddeillio o gyfuniad o ddylanwadau cymdeithasol, economaidd, daearyddol a diwylliannol. Gwrthodwyd ceisiadau nad oedd yn cynnig cymuned glir y gellid ei hadnabod yn hawdd.

Edrychodd yr adolygiad hefyd ar newid enwau cymunedau ac addasu'r ffiniau presennol. Cynigir newid enw lle credir y bydd y newid yn ei gwneud yn haws adnabod y gymuned ac yn cryfhau ei hunaniaeth. Cynigir newid ffiniau naill ai lle bo cymuned adnabyddedig wedi ymestyn y tu hwnt i'w ffiniau presennol oherwydd datblygiad tai neu newid defnydd tir neu lle bydd newid i ffin gorfforol (afon, priffordd, rheilffordd) rhwng dwy gymuned yn rhoi gwell diffiniad ac eglurder 'ar lawr gwlad' i'r cymunedau dan sylw.

# Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol o fewn Dinas a Sir Caerdydd
# **CYNIGION DRAFFT**

**Cynigion Drafft**
Lluniwyd cynigion drafft ar sail yr adolygiad o'r cyflwyniadau rhagarweiniol a eglurwyd uchod. Cynigion technegol yw'r rhain a disgwylir i'r ymgynghori cyhoeddus ar y rhain fod yn sail ar gyfer llunio'r cynigion terfynol drwy sicrhau bod safbwynt yr holl drigolion yr effeithir arnynt yn glir.

Mae crynodeb o'r cynigion drafft ynghlwm yn Atodiad B.

Ceir dadansoddiad manwl o'r cyflwyniadau a ddaeth i law a'r cynigion a wnaed, a hynny wedi'i rannu i bedair prif ardal y Cyngor a'i atodi yn Atodiad C (Gogledd Caerdydd), Atodiad D (De Caerdydd), Atodiad E (Gorllewin Caerdydd) ac Atodiad F (Canol Caerdydd).

Does dim newidiadau wedi'u cynnig i 13 o gymunedau, sef:

- Cymuned Adamsdown
- Cymuned Caerau
- Cymuned Castell
- Cymuned Cathays
- Cymuned y Mynydd Bychan
- Cymuned Ystum Taf
- Cymuned Pentyrch
- Cymuned Pontprennau
- Cymuned y Rhath
- Cymuned Tongwynlais
- Cymuned Radur a Threforgan
- Cymuned yr Eglwys Newydd
- Cymuned Pentref Llaneirwg

Mae newid neu newidiadau wedi'u cynnig i 19 o gymunedau, sef:

- Cymuned Tre-biwt
- Cymuned Treganna
- Cymuned Cyncoed
- Cymuned y Tyllgoed
- Cymuned Trelái
- Cymuned Gabalfa
- Cymuned Grangetown
- Cymuned Llys-faen
- Cymuned Llandaf
- Cymuned Llanisien
- Cymuned Llanrhymni
- Cymuned Pen-twyn
- Cymuned Pen-y-lan
- Cymuned Rhiwbeina
- Cymuned Glanyrafon
- Cymuned Tredelerch
- Cymuned y Sblot
- Cymuned Sain Ffagan
- Cymuned Trowbridge

Daeth cyflwyniadau i law a oedd yn cynnig y dylid creu cyngor cymuned newydd. Ni fwriwyd ymlaen â'r cynigion hyn gan na chaiff yr adolygiad hwn greu cyngor cymuned. Lle bo'n briodol mae'r adolygiad wedi cyflwyno cynigion drafft ar gyfer newid ffiniau'r gymuned. Cynigir y newidiadau hyn gan ragweld y bydd yr etholwyr o fewn y gymuned, unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, yn ffurfio'r cyngor cymuned wedyn.

**Amserlen yr adolygiad**

Dechreuodd yr adolygiad ar 1 Mawrth 2013 a chyflwynir yr argymhellion terfynol i'w mabwysiadu yn Ionawr/Chwefror 2014.

Bydd yr ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion drafft hyn yn digwydd o 1 Awst 2013 hyd 1 Hydref 2013. Er mwyn cael ei ystyried, rhaid i unrhyw gyflwyniad ddod i law erbyn hanner nos ar 31 Hydref 2013.

| Cam | Cyfnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| Dechrau'r Adolygiad | | 01 Mawrth 2013 |
| Ymchwiliad Rhagarweiniol<br>- Gwahodd cyflwyniadau | Tri mis | 01 Mawrth 2013 - 31 Mai 2013 |
| Ystyried y cyflwyniadau a ddaeth i law | Dau fis | Mehefin 2013 – Gorff 2013 |
| Ymgynghori ar y Cynigion Drafft<br>- Cyhoeddi cynigion drafft<br>- Cyfnod ymgynghori cyhoeddus | Tri mis | <br>01 Awst 2013<br>01 Awst 2013 – 31 Hyd 2013 |
| Ystyried y cyflwyniadau a ddaeth i law | Dau fis | Tach 2013 – Rhag 2013 |
| Cyhoeddi'r Cynigion Terfynol<br>- Cyhoeddi'r cynigion a'r argymhellion terfynol | | Ionawr/Chwefror 2014 |

**Gwneud cyflwyniad**

Rhoddir ystyriaeth ddyledus yn yr adolygiad i bob sylw a chyflwyniad ar y cynigion drafft, os atebir y meini prawf canlynol:

- Bod y sylwadau'n cyfeirio at y cynigion drafft. Nid ystyrir materion eraill fel rhan o'r adolygiad hwn.

- Y cyflwynir y sylwadau ar y ffurflen gyflwyniadau swyddogol neu ffurflen yr un fath â hi.

- Y daw'r sylwadau i law erbyn hanner nos ar y dyddiad cau a bennwyd.

- Bod enw a chyfeiriad ar bob sylw fel y gellir gwybod pwy a'i hanfonodd. Ni dderbynnir cyflwyniadau dienw, er na chyhoeddir manylion personol aelodau'r cyhoedd. Caiff cyflwyniadau gan gyrff a phersonau cynrychioliadol fel Cynghorau, Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac ati eu henwi yn yr adroddiad.

- Lle bo corff neu unigolyn yn gwneud cyflwyniad, rhaid iddo ddangos sut y mae wedi'i wneud "er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus".

**Gwybodaeth Ategol**

Gellir cael gwybodaeth bellach berthnasol i'r adolygiad, gan gynnwys ffigurau etholwyr, dyfarniadau praesept cynghorau cymuned a mapiau'n dangos y ffiniau presennol, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, ym mhrif swyddfa'r Cyngor ac ar wefan Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor.

**Cyngor Caerdydd**
Neuadd y Sir,
Glanfa Iwerydd,
Caerdydd,
CF10 4UW

Neuadd y Sir,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3ND
www.cardiff.gov.uk

**Llyfrgell Ganolog Caerdydd**
Yr Aes, Caerdydd.

**Llyfrgell Treganna**
Library Street, Treganna, Caerdydd

**Llyfrgell Cathays**
Fairoak Road, Cathays, Caerdydd

**Llyfrgell Treléi**
Grand Avenue, Treléi, Caerdydd

**Llyfrgell y Tyllgoed**
Doyle Avenue, y Tyllgoed, Caerdydd

**Llyfrgell Gangen Ystum Taf**
Gabalfa Avenue, Caerdydd

**Llyfrgell Llanedern**
74 y Maelfa, Llanedern, Caerdydd.

**Llyfrgell Llanisien**
31 Kimberley Terrace, Llanisien, Caerdydd.

**Llyfrgell Llanrhymni**
Countisbury Avenue, Llanrhymni, Caerdydd.

**Llyfrgell Pen-y-lan**

Penylan Road, Pen-y-lan, Caerdydd.

**Llyfrgell Gangen Radur**
Park Road, Radur, Caerdydd

**Llyfrgell Rhiwbeina**
Pen y Dre, Rhiwbeina, Caerdydd.

**Llyfrgell Rhydypennau**
Llandennis Road, Caerdydd.

**Llyfrgell y Rhath**
Heol Casnewydd, y Rhath, Caerdydd.

**Llyfrgell Tredelerch**
Brachdy Road, Tredelerch, Caerdydd.

**Llyfrgell Canolfan Star**
2 Splott Road, y Sblot, Caerdydd.

**Llyfrgell Trowbridge a Llaneirwg**
Crickhowell Road, Llaneirwg, Caerdydd.

**Llyfrgell yr Eglwys Newydd**
Park Road, yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Christine Salter
Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro
Cyngor Caerdydd